**HYSBYSIAD CADARNHAU GORCHYMYN**
**(AC EITHRIO GORCHYMYN DILEU CAFFAEL)**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**(GWYRO CILFFORDD GYFYNGEDIG 76 MAESTEG)**
**GORCHYMYN GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 1 2023**

Ar **11/10/2023** cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y gorchymyn uchod a wnaed o dan adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Effaith y gorchymyn fel y'i cadarnhawyd fydd gwyro'r rhan honno o Gilffordd Gyfyngedig 76 Maesteg sy'n rhedeg o bwynt (Cyf. Grid SS 87409160), ac yn mynd ymlaen i gyfeiriad dwyrain de-ddwyreiniol am oddeutu 21 metr hyd at Bwynt (Cyf. Grid SS). 87429105), gan barhau i gyfeiriad cyffredinol de de-orllewinol am oddeutu 53 metr hyd at bwynt (Cyf. Grid SS 87409100) ar linell sy'n rhedeg o bwynt (Cyf. Grid SS 87409160), ac yn mynd ymlaen i gyfeiriad de de-orllewinol am tua 46 metr hyd at bwynt (Cyfeirnod Grid. SS 87399101), mae wedyn yn parhau i gyfeiriad y dwyrain de-ddwyrain am oddeutu 14 metr hyd at bwynt (Cyfeirnod Grid. SS 87409101), cyn parhau mewn cyfeiriad cyffredinol de-ddwyreiniol am oddeutu 9 metr i ymuno ag aliniad presennol Llwybr Ceffylau 76 Maesteg a Llwybr Troed 36A Maesteg wrth bwynt (Cyf. Grid SS 87409100), fel y dangosir ar fap y gorchymyn.

Mae copi o'r gorchymyn a gadarnhawyd a map y gorchymyn wedi cael eu gosod a gellir eu gweld yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell Maesteg, Lôn y Gogledd, Maesteg, CF34 9AA rhwng yr oriau canlynol: Dydd Llun 9.15a.m. - 1p.m. a 2p.m. - 6p.m, Dydd Mawrth 9.15a.m. - 1p.m. a 2p.m. -5p.m, dydd Mercher 9.15a.m. -1p.m, dydd Iau 9.15a.m. -1p.m. a 2p.m. -5p.m, dydd Gwener 9.15a.m. -1p.m. a 2p.m. -5p.m, dydd Sadwrn 9.15a.m. -1p.m. a 2p.m. -5p.m. neu gellir eu harchwilio ar-lein yn https://www.bridgend.gov.uk/cy/busnes/trwyddedu/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/ neu drwy gysylltu â rightsofway@bridgend.gov.uk neu drwy ffonio: 01656 642595. Yn ychwanegol, gellir gweld copi o'r dogfennau yn rhad ac am ddim yn y Dderbynfa Ddinesig yn y cyfeiriad isod yn ystod oriau swyddfa.

Daw y gorchymyn i rym o **08/11/2023** ond os bydd ar unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn eisiau cwestiynu ei ddilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir ynddo, ar y sail nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, fel y'i diwygiwyd, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, fel y'i diwygiwyd, neu ag unrhyw reoliad a wnaed o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, caiff ef neu hi, o dan baragraff 2 o Atodlen 2 i'r Ddeddf, fel y'i cymhwysir gan baragraff 5 o Atodlen 6 i'r Ddeddf, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos i **19/10/2023**.

Os oes arnoch angen yr hysbysiad a'r gorchymyn mewn fformat arall, er enghraifft, print bras, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adain Gyfreithiol yn y cyfeiriad isod neu drwy'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid, ffôn: 01656 643643.

**DYDDIEDIG**:19/10/2023

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.

E34-900/HIG001-0898 N2